Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Chwarae Llanfihangel Troddi
Neuadd Bentref Llanfihangel Troddi
Llanfihangel Troddi
Sir Fynwy
NP25 4HZ

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cofrestredig ar gyfer plant o dan bump oed yw Cylch Chwarae Llanfihangel Troddi.  Mae wedi ei leoli ym mhentref Llanfihangel Troddi ac yn gwasanaethu ardal eang ar gyrion Trefynwy yn awdurdod lleol Sir Fynwy.

Mae'r lleoliad yn neuadd y pentref ac mae wedi ei gofrestru i dderbyn uchafswm o 24 o blant ym mhob sesiwn.  Mae'n darparu sesiynau yn y bore, ar ddyddiau'r wythnos, am 38 wythnos y flwyddyn.  Adeg yr arolygiad, roedd cyfanswm o 28 o blant ar y gofrestr, y mae 18 ohonynt yn dair a phedair oed, ac yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.  Mae pob un o'r plant o ethnigrwydd gwyn Prydeinig.  Nid yw'r un plentyn yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol nac yn siarad Cymraeg gartref.  Nid yw'r lleoliad wedi nodi bod gan unrhyw blant anghenion dysgu ychwanegol.

Mae pump o ymarferwyr yn gweithio yn y lleoliad, gan gynnwys goruchwyliwr y cylch chwarae.  Arolygwyd y lleoliad gan Estyn ddiwethaf ym Mehefin 2009.  Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym Medi 2015.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Da |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn gwahanol yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus ag oedolion a gyda'i gilydd
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol
- Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd gwerth chweil ac yn defnyddio iaith fathemategol yn eu gweithgareddau bob dydd yn hyderus
- Mae mwyafrif o blant yn dangos medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) addas
- Mae bron pob un o'r plant yn dechrau yn y lleoliad yn hapus a brwdfrydig
- Mae gan bob un o'r plant agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae
- Mae gan bob un o'r plant berthnasoedd da ag ymarferwyr yn y lleoliad
- Mae pob un o'r ymarferwyr yn rhyngweithio â phlant yn fedrus ac yn defnyddio'r rhan fwyaf o gyfleoedd i ymestyn eu dysgu'n llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae arweinydd y lleoliad yn darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n canolbwyntio'n gryf ar les pob un o'r plant
- Mae ymarferwyr yn rhannu rolau arwain yn effeithiol
- Mae gan bob ymarferwr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at dîm cefnogol a brwdfrydig
- Mae arweinydd y lleoliad yn trefnu hyfforddiant unigol a hyfforddiant tîm yn briodol
- Mae'r pwyllgor rheoli'n canolbwyntio'n briodol ar drefnu a rhedeg y lleoliad
- Mae pob ymarferwr yn myfyrio'n rheolaidd ar lwyddiant y sesiynau ac yn nodi pan fydd gweithgareddau wedi bod yn effeithiol neu ble mae angen iddynt wella
- Mae'r lleoliad yn ystyried barn rhieni yn effeithlon
- Mae cynllun gwella'r lleoliad yn nodi gweithgareddau addas i ddatblygu darpariaeth

## Argymhellion

A1 Gwella medrau Cymraeg plant

A2 Datblygu cynllunio ac arferion i sicrhau bod plant yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn fwy systematig ar draws yr holl feysydd dysgu

A3 Datblygu prosesau cryfach ar gyfer sicrhau ansawdd yr addysgu

A4 Sicrhau bod prosesau hunanarfarnu a gwella yn cael eu trefnu'n fwy systematig ac yn canolbwyntio'n well ar ddeilliannau ar gyfer plant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn gwahanol yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn datblygu medrau newydd yn effeithiol ar draws y rhan fwyaf o feysydd cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau llythrennedd effeithiol. Maent yn gwrando'n dda ac yn siarad yn hyderus ag oedolion a gyda'i gilydd. Siaradant am eu profiadau eu hunain yn glir, er enghraifft beth maent wedi ei wneud â'u teuluoedd y tu allan i'r lleoliad. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau canu caneuon fel grŵp a gwrando ar storïau sy'n gysylltiedig â'u testun 'Y Gofod'. Gall mwyafrif o blant hŷn alw i gof y prif ddigwyddiadau mewn storïau y maent wedi gwrando arnynt yn dda. Mae ychydig iawn o blant sy'n fwy abl yn defnyddio'r lluniau o stori y maent wedi ei chlywed i ail-ddweud y stori yn eu geiriau eu hunain yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu marciau i nodi eu syniadau eu hunain mewn map meddwl yn ddefnyddiol. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ceisio creu marciau yn hyderus, gan ffurfio siapiau llythrennau ag amrywiaeth o ddeunyddiau, fel brwshys paent, ysgrifbinnau a phensiliau. Gall rhai plant hŷn ysgrifennu amrywiaeth o lythrennau, gan gynnwys eu henwau, yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd gwerth chweil. Defnyddiant iaith fathemategol yn eu gweithgareddau bob dydd yn hyderus, er enghraifft wrth nodi crempogau mwy a llai. Mae llawer o blant yn cyfrif gwrthrychau yn sicr islaw 10, a gall mwyafrif ohonynt gyfrif yn ôl o bump yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau rhagweld digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'u harferion dyddiol eu hunain, ac yn defnyddio termau priodol, fel 'wedyn' a 'cyn', yn gywir. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio geiriau sy'n disgrifio tymheredd yn ystod eu gweithgareddau chwarae yn gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio'r tywydd fel 'oer' ar ddiwrnod gaeafol.

Mae mwyafrif o blant yn dangos medrau TGCh addas. Maent yn deall bod angen batris ar ddyfeisiau cludadwy a gallant gynnau a diffodd amrywiaeth o ddyfeisiau syml, fel camerâu, yn dda. Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio'r offer a gynigir iddynt, fel camerâu, ceir rheoli o bell ac offer recordio, yn briodol.

Mae medrau Cymraeg lleiafrif o blant yn datblygu'n foddhaol. Maent yn ymuno â chaneuon Cymraeg ac yn deall ambell air ac ymadrodd sylfaenol, fel ychydig o liwiau a rhifau. Fodd bynnag, nid oes digon o blant yn defnyddio'r Gymraeg yn annibynnol yn ystod eu gweithgareddau chwarae, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio ystod gyfyngedig yn unig o eirfa Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn dechrau yn y lleoliad yn hapus a brwdfrydig. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn awyddus i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae. Mae gan bron bob un o'r plant foesau da ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion yn y lleoliad. Maent yn cymryd eu tro yn ofalus ac yn chwarae â'i gilydd o'u gwirfodd.

Mae gan bob un o'r plant berthynas dda gydag ymarferwyr yn y lleoliad. Maent yn ymateb yn dda i gyfarwyddiadau ymarferwyr yn ystod gweithgareddau ffocysedig ac yn llwyddo i gymryd eu tro mewn gweithgareddau grŵp. Gallant wneud dewisiadau am eu gweithgareddau dysgu annibynnol yn hyderus, er enghraifft wrth ddewis offeryn cerddorol i'w chwarae.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o iechyd a hylendid. Er enghraifft, maent yn dechrau deall pwysigrwydd golchi eu dwylo ar ôl gweithgareddau sy'n creu llanastr a chyn bwyta. Yn ystod amser byrbryd, mae bron pob un o'r plant yn eistedd yn dawel ac yn bwyta gyda'i gilydd yn synhwyrol. Dangosant fedrau cymdeithasol da sy'n briodol i'w hoedran.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae ymarferwyr yn cynllunio'n dda i ddarparu ystod werth chweil o weithgareddau dysgu ysgogol, gan seilio llawer ohonynt ar syniadau'r plant eu hunain. Er enghraifft, mae llawer o blant yn cyfrannu ystod berthnasol o syniadau sy'n gysylltiedig â'r testun presennol, sef y 'Gofod'. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu yn dda ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd da ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae ymarferwyr yn cynllunio cydbwysedd defnyddiol rhwng gweithgareddau grŵp, gweithgareddau ffocysedig a gweithgareddau mwy annibynnol wedi eu hysgogi gan blant. Mae cynllunio gofalus yn darparu cyfleoedd dysgu buddiol ar gyfer plant i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau.

Mae ymarferwyr yn dechrau cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod gweithgareddau'n helpu i ddatblygu medrau pwysig, fel medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh plant. O ganlyniad, mae rhai gweithgareddau dyddiol yn dechrau cynnwys cyfleoedd i blant ddatblygu'r medrau ehangach hyn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth dda o lyfrau yn y gornel ddarllen a gweithgareddau rhifedd ar y mat mathemateg. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod blaenoriaeth ddigon uchel yn cael ei rhoi i'r medrau hyn mewn gweithgareddau dyddiol cynlluniedig ac annibynnol ar draws pob maes dysgu. Yn yr un modd, ar rai adegau, mae ymarferwyr yn helpu plant i ddatblygu eu medrau meddwl trwy holi medrus. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'r cyfleoedd hyn yn ddigon systematig nac yn ddigon aml.

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer y Gymraeg yn briodol. Mae mwyafrif o staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol yn foddhaol trwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, maent yn cyfarch plant yn Gymraeg ac yn canu caneuon Cymraeg bob dydd. Mae gan y lleoliad amrywiaeth o lyfrau stori Cymraeg y gall plant eu defnyddio yn annibynnol. Ar draws y lleoliad, dan do a'r tu allan, mae amrywiaeth dda o arwyddion yn Gymraeg yn galluogi plant i weld deunydd wedi'i argraffu yn Gymraeg. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ymarferwyr yn defnyddio'r iaith yn ddigon da nac yn ddigon rheolaidd. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi, gan gynnwys coginio eu picau ar y maen eu hunain, a chreu ac anfon cardiau ar gyfer Santes Dwynwen.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd addas o'r ardal i gefnogi dealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas, er enghraifft trwy ymweliadau â'r eglwys leol. Caiff y profiadau hyn effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob un o'r ymarferwyr berthnasoedd gweithio da iawn gyda'r plant yn y lleoliad. Maent yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u hanghenion personol. Mae gan bron bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth effeithiol o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn frwdfrydig ac yn fodelau rôl da ar gyfer y plant. Mae pob un o'r ymarferwyr yn ymgysylltu'n llawn â phlant trwy gydol y sesiwn. Maent yn rhyngweithio â phlant yn fedrus ac yn defnyddio llawer o gyfleoedd i ymestyn eu dysgu'n llwyddiannus. Maent yn ymyrryd yn chwarae'r plant yn briodol, gan ofyn cwestiynau'n effeithiol i ymestyn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ymarferwyr yn cymryd camau yn ddigon effeithiol i ddatblygu'r ffordd y mae plant yn dysgu Cymraeg. Ar adegau prin iawn, nid yw ymarferwyr yn cymryd camau i wella datblygiad plant yn ddigon trylwyr, er enghraifft pan fyddant yn dal offer creu marciau neu sisyrnau yn anghywir.

Yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi cyflwyno gweithdrefnau newydd ar gyfer asesu plant pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad a thrwy gydol eu cyfnod yno. Mae hyn yn darparu ystod ddefnyddiol o wybodaeth am bob plentyn ac yn galluogi ymarferwyr i olrhain cynnydd plant yn erbyn deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn effeithlon. Mae ymarferwyr yn cynnal ystod werth chweil o arsylwadau o ddysgu'r plant ac maent yn dechrau defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol wrth gynllunio dysgu i sicrhau eu bod yn herio pawb yn briodol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hyn. Nid yw'r lleoliad bob amser yn dadansoddi'r wybodaeth sydd ganddo am gyflawniadau plant yn ddigon trylwyr i'w helpu i wella'i ddarpariaeth.

Mae'r lleoliad yn darparu gwybodaeth berthnasol am gynnydd plant ar gyfer rhieni ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad a thrwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb a gynhelir yn rheolaidd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Er enghraifft, mae plant yn cael gwybod am ystod werth chweil o wahanol ddiwylliannau a chrefyddau trwy ddysgu am wyliau crefyddol, fel Divali.

Mae gan y lleoliad bolisïau ac arferion effeithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o fyw yn iach ac am sicrhau lles emosiynol a chorfforol plant. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn darparu ystod fuddiol o weithgareddau corfforol yn yr awyr agored y rhan fwyaf o ddyddiau. Mae hyn yn annog y plant i ddefnyddio a datblygu eu medrau corfforol yn hyderus.

Mae gan ymarferwyr arferion dyddiol trefnus sy'n sicrhau bod bron pob un o'r plant yn ymgynefino'n gyflym yn y lleoliad, ac mae hyn yn cyfrannu at les plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn helpu plant i fod yn gyfrifol am eu hylendid personol, er enghraifft trwy sicrhau bod plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta bwyd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau clir ac effeithiol i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen. Maent wedi sefydlu ystod addas o gysylltiadau, er enghraifft cysylltiadau â gwasanaethau iechyd, er mwyn darparu cymorth a chyngor ychwanegol, yn ôl yr angen. Mae plant sydd angen cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd cryf yn erbyn targedau a osodwyd ar eu cyfer gan y lleoliad ac asiantaethau cymorth.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad ethos cyfeillgar a gofalgar. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod pob un o'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael yr un cyfle i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau dysgu. Rhoddir pwyslais addas ar ddathlu amrywiaeth. Er enghraifft, mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, fel dathlu'r Flwyddyn Newydd Dsieineaidd. Mae pob ymarferwr yn delio â phlant mewn modd ystyriol, a gwerthfawrogir safbwyntiau pob plentyn. Er enghraifft, mae plant yn cwblhau mapiau meddwl defnyddiol i ddangos yr hyn yr hoffent ei ddysgu ar ddechrau thema newydd.

Mae gan y lleoliad staff sydd â chymwysterau addas i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r adeilad yn ddiogel a saff. Er bod y lleoliad yn rhannu ei adeilad â'r pentref lleol, mae ymarferwyr yn sicrhau bod y gofod dan do yn ysgogol a deniadol. Caiff gwaith plant ei arddangos ar draws y lleoliad yn briodol. Mae gan y lleoliad fynediad uniongyrchol at ardal awyr agored sy'n cynnwys adnoddau da, ac fe wna ymarferwyr ddefnydd da o'r gofod sydd ar gael. Rhoddir cyfleoedd buddiol i blant ddysgu yn yr awyr agored. Er enghraifft, mae'r ardal natur yn galluogi plant i ddysgu am greaduriaid bach a datblygu synnwyr priodol o syfrdan a rhyfeddod yn effeithiol. Fodd bynnag, ni chaiff y plant fynediad rhydd i'r ardal y tu allan, ac nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r awyr agored yn ddigon da i gynllunio gweithgareddau dysgu ffocysedig i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r prif ymarferwyr yn rheoli trefniadaeth y lleoliad o ddydd i ddydd yn fedrus. Mae'n darparu arweinyddiaeth effeithiol ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy'n canolbwyntio'n gryf ar les pob un o'r plant ac ar ddarparu addysg effeithiol. O ganlyniad, mae gan bob ymarferwr yn y lleoliad synnwyr clir o gyfeiriad. Mae ystod werth chweil o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi'r ffordd y caiff y lleoliad ei redeg, ac mae ymarferwyr yn rhoi'r rhain ar waith yn gyson. Mae arweinydd y lleoliad yn sicrhau bod ymarferwyr yn rhannu rolau arwain yn effeithiol. Er enghraifft, mae un unigolyn yn arwain o ran cynllunio gweithgareddau dysgu, ond mae pob un o'r ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu'r cynlluniau hyn. O ganlyniad, mae gan bob un ohonynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n fuddiol at dîm cefnogol a brwdfrydig.

Mae arweinydd y lleoliad yn trefnu hyfforddiant unigol a hyfforddiant tîm yn briodol. O ganlyniad, mae gan bron bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'r Cyfnod

Sylfaen. Mae gan arweinwyr drefniadau boddhaol ar waith i gynnal cyfarfod gwerthuso blynyddol ar gyfer pob un o'r staff. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys arsylwadau rheolaidd o addysgu, na thargedau digon ffocysedig i helpu ymarferwyr i wella'u harfer.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd. Maent yn gefnogol iawn o'r lleoliad. Mae eu cyfarfodydd yn drylwyr ac yn canolbwyntio'n briodol ar drefniadaeth y lleoliad, a'r ffordd y caiff ei redeg. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn canolbwyntio'n ddigon da ar safonau plant a'r cynnydd a wnânt. Mae'r lleoliad yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol, fel y Cyfnod Sylfaen, yn briodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae pob un o'r ymarferwyr yn y lleoliad yn dangos parodrwydd i wella eu harfer. Maent yn myfyrio'n rheolaidd ar lwyddiant y sesiynau ac yn nodi'n briodol pan fydd gweithgareddau wedi llwyddo neu ble mae angen iddynt eu gwella. Mae'r lleoliad yn ystyried safbwyntiau rhieni ac yn gweithredu'n briodol. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn narpariaeth y lleoliad. Er enghraifft, mae wedi arwain at drefniadau defnyddiol ar gyfer amseroedd dechrau a diwedd y sesiynau. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn trefnu amserlen gweithgareddau hunanarfarnu'r lleoliad yn ddigon systematig. Nid yw arweinwyr yn dadansoddi'r cynnydd a wna plant yn ddigon gofalus er mwyn nodi meysydd i'w gwella. Yn yr un modd, gan nad yw arweinwyr yn monitro ansawdd yr addysgu, ni allant nodi'n ddigon da ble y gallai fod angen iddo wella.

Mae cynllun gwella'r lleoliad yn nodi gweithgareddau addas y mae angen i'r lleoliad ymgymryd â nhw i ddatblygu ei ddarpariaeth. Mae'n rhoi ystyriaeth briodol i adroddiadau allanol, fel y rheiny gan yr awdurdod lleol, ac mae arweinwyr yn cymryd camau pan ofynnir iddynt wneud hynny yn gyflym a llwyddiannus. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw cynllun gwella'r lleoliad yn canolbwyntio'n ddigon da ar wella deilliannau ar gyfer plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn defnyddio amrywiaeth werth chweil o bartneriaethau i wella'i ddarpariaeth yn dda. Er enghraifft, mae cysylltiadau â'r eglwys leol yn rhoi cyfleoedd addas i blant ymweld â lleoliad crefyddol a chynnal drama'r Geni mewn lleoliad priodol.

Mae gan ymarferwyr bartneriaeth effeithiol â rhieni. Mae'n rhoi ystod ddefnyddiol o wybodaeth iddynt am y lleoliad a dysgu'r plant trwy fwletinau dyddiol yr hysbysfwrdd a chylchlythyrau achlysurol. Mae'r lleoliad yn rhoi croeso i bob un o'r rhieni, ac mae ymarferwyr yn cysylltu â nhw i drafod eu plentyn yn rheolaidd. O ganlyniad, mae gan bob ymarferwr ddealltwriaeth dda o anghenion unigol plant. Fodd bynnag, ni chaiff rhieni gyfleoedd cryf i gael eu cynnwys mewn dylanwadu ar ddysgu eu plant. Mae'r lleoliad yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau ei fod yn paratoi plant yn dda ar gyfer yr adeg y byddant yn symud i'r ysgol gynradd.

Mae gan y lleoliad berthnasoedd gweithio da gyda staff ymgynghorol o'r awdurdod lleol. Mae hyn yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i'r lleoliad, er enghraifft ar ffyrdd o ddatblygu medrau mathemategol plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu plant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o adnoddau yn y gymuned i wella'i ddarpariaeth. Er enghraifft, mae archfarchnad leol yn darparu cyllid sy'n galluogi ymarferwyr i ychwanegu at adnoddau chwarae mewn modd buddiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad lefel dda o ymarferwyr cymwys i addysgu a gofalu am y plant yn y lleoliad. Mae pob un o'r ymarferwyr yn mynychu cyfleoedd hyfforddi perthnasol sy'n datblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid yw eu hyfforddiant bob amser yn gysylltiedig â'u hanghenion unigol yn ddigon cryf.

Mae gan y lleoliad amrywiaeth briodol o adnoddau i gefnogi dysgu pob un o'r plant. Mae'r holl adnoddau'n hygyrch i'r plant, ac mae hyn yn annog eu hannibyniaeth yn dda. Mae'r ardal ddysgu yn yr awyr agored yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i blant ddysgu yn unol ag ethos y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan arweinydd a phwyllgor rheoli'r lleoliad ddealltwriaeth gynhwysfawr o gyllideb y lleoliad, ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn effeithlon. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 o ymatebion.  Ni ddangosir unrhyw ddata.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Andrew Thorne | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |